

**Tomorrow's  
Engineers**



**Gwneud gwahaniaeth  
i'r byd**



**Peirianeg yn y Brifysgol**

# Pam astudio peirianneg?

Mae peirianneg yn greadigol.  
Mae'n ymarferol. Mae'n **arloesol**.  
Mae'n golygu gwneud gwahaniaeth i'r byd.

Mae peirianneg ymhob agwedd ar ein bywyd bob dydd – o'r teclynnau a ddefnyddiwn a'r adeiladau sy'n gartref i ni i'r pŵer a ddefnyddiwn a'r bwyd a fwytawn. Mae peirianwyr yn defnyddio'u sgiliau i wella dyluniad, perfformiad ac effeithlonrwydd bron popeth rydym yn ei ddefnyddio heddiw ac i ddatblygu cynhyrchion a phrosesau'r dyfodol.

Os gallwch chi weld eich hunan yn gweithio gydag eraill i fynd i'r afael â rhai o'r heriau mwyaf sy'n wynebu'r byd – o seiberddiogelwch i sicrhau dŵr glân – neu ddylunio cynhyrchion arloesol fel ceir di-yrwr a robotau llawfeddygol, efallai mai peirianneg yw'r yrfa i chi.



## 3 rheswm i ddewis peirianneg:

- Mae galw mawr am beirianwyr ac mae'r tâl yn dda
- Mae peirianwyr yn gwneud gwahaniaeth i'r byd
- Fel meddygon a chyfreithwyr, mae peirianwyr sydd wedi'u cofrestru'n broffesiynol yn uchel eu parch.

# Rhagolygon gwych

Mae galw mawr am sgiliau peirianneg felly os ydych chi'n chwilio am swydd lle gallech ennill cyflog da, dringo'r ysgol yrfa a symud ar draws diwydiannau a sectorau gwahanol, gallai gradd mewn peirianneg fod yn fan cychwyn delfrydol.

## Mae cyflogau'n gystadleuol iawn:

- Mae cyflogau cychwynol graddedigion peirianneg a thechnoleg tua 10% yn uwch na chyflog cychwynol graddedigion ar gyfartaledd.
- Gall graddedigion peirianneg ddisgwyl ennill dipyn mwy gydol eu hoes na'r rhan fwyaf o raddedigion eraill.
- Mae peirianwyr proffesiynol yn ennill £23,000-£38,000 yn fwy na'r cyflog cyfartalog cenedlaethol.

Data o EngineeringUK 2017: The State of Engineering

Os oes gennych chi gymwysterau a phrofiad ym maes peirianneg, dydy hynny ddim yn eich cyfyngu i weithio ym maes eich pwnc gradd. Mae'r gallu i ddatrys problemau drwy ddefnyddio sgiliau mathemategol a gwyddonol, ynghyd â'r gallu i reoli prosiectau, gweithio mewn fîm a chyfathrebu eich syniadau yn eich mewn amrywiaeth o feysydd.

Yn union fel proffesiynau eraill, mae peirianneg yn cynnig llawer o gyfleoedd datblygu gyrfa. Gyda gradd mewn peirianneg, gallech fod yn gymwys i gael eich cofrestru'n broffesiynol fel Peiriannydd Corfforedig neu Beiriannydd Siartredig, ar ôl i chi feithrin sgiliau a chymhwysedd yn gweithle.

## Peiriannydd Graddedig

"Mae peirianneg yn bwnc llawn amrywiaeth sy'n eich galluogi i ddeall y byd rydym yn byw ynddo ac yn rhoi'r sgiliau sydd eu hangen arnoch i wneud gwahaniaeth yn y dyfodol. Mae pwyslais cryf ar waith fîm a chyfathrebu; sgiliau trosglwyddadwy sy'n bwysig i unrhyw lwybr gyrfa."

**Luke**, Ymchwilydd Doethuriaeth, Prifysgol Birmingham  
MEng (Anrh) Peirianneg Gemegol a Chemeg Gymwysedig,  
Prifysgol Aston



# Beth yw'r gwahanol ddisgyblaethau peirianeg?

Mae sawl gwahanol fath o beirianeg ac mae yna amrywiaeth eang o raddau peirianeg ar gael. Mae llawer o'r egwyddorion a'r sgiliau a ddefnyddir mewn peirianeg yn gyffredin yn y disgyblaethau i gyd, sy'n golygu bod peirianwyr yn aml yn symud rhwng meysydd gwahanol yn ystod eu gyrfa ac maen nhw'n tueddu i weithio mewn timau ochr yn ochr â gweithwyr proffesiynol eraill.

Mae rhai o'r gwahanol feysydd y gallech weithio ynddyn nhw fel peiriannydd yn cynnwys

## Gweithgynhyrchu Uwch

Datblygu'r systemau a'r cyfarpar angenrheidiol i wneud y cynhyrchion allwn ni ddim byw hebddyn nhw, ar yr un pryd â gwella effeithlonrwydd, dibynadwyedd a chost.

Mae peirianwyr sy'n gweithio yn y diwydiant hwn yn cynnwys:

- Peirianwyr Deunyddiau
- Peirianwyr Systemau Gweithgynhyrchu
- Peirianwyr Prosesau



## Awyrofod

Dylunio systemau hedfan, datblygu technoleg amddiffyn sy'n torri tir newydd a chyfrannu at yr oes nesa o archwilio'r gofod. Mae peirianwyr yn gweithio yn y diwydiant hwn yn cynnwys:

- Peirianwyr Awyrofod
- Peirianwyr Mecanyddol
- Peirianwyr Deunyddiau



## Moduro a Thrafnidiaeth

Dylunio'r genhedlaeth nesaf o geir, tramiau, awyrennau/hofrenyddion a llongau, â ffynonellau pŵer newydd ac effeithlon. Mae peirianwyr sy'n gweithio yn y diwydiant hwn yn cynnwys:

- Peirianwyr Rheilffordd
- Peirianwyr Moduro
- Peirianwyr Morol



## Amgylchedd Adeiledig

Creu adeiladau newydd, sicrhau bod gan adeiladau'r systemau pŵer a chyfathrebu sydd eu hangen er mwyn i bobl allu byw ynddyn nhw. Mae peirianwyr sy'n gweithio yn y diwydiant hwn yn cynnwys:

- Peirianwyr Gwasanaethau Adeiladu
- Peirianwyr Sifil a Strwythurol
- Peirianwyr Trydanol



## Cyfrifiadura

Dylunio a chreu peiriannau chwilio, apiau rhwydweithio cymdeithasol a rhaglenni meddalwedd sy'n cael eu defnyddio mewn amryw o sectorau, yn cynnwys cyllid a meddygaeth. Mae peirianwyr sy'n gweithio yn y diwydiant hwn yn cynnwys:

- Peirianwyr Meddalwedd
- Peirianwyr Dylunio
- Peirianwyr Electroneg



## Dylunio ac Ymgynghoriaeth

Gweithio mewn timau amlddisgyblaeth ar agweddau technol, ymarferol a dylunio prosiectau graddfa fawr. Mae peirianwyr sy'n gweithio yn y diwydiant hwn yn cynnwys:

- Peirianwyr Dylunio
- Peirianwyr Sifil
- Peirianwyr Mecanyddol



## Digidol a Chreadigol

Dyfeisio offer newydd ar gyfer cipio delweddau neu sain yn well; rhaglennu'r genhedlaeth nesaf o gemau cyfrifiadurol neu effeithiau arbennig ar gyfer ffilmiau. Mae peirianwyr sy'n gweithio yn y diwydiant hwn yn cynnwys:

- Peirianwyr Meddalwedd
- Peirianwyr Electroneg
- Peirianwyr Acwsteg



## Seilwaith

Creu systemau trosglwyddo ar gyfer nwy, dŵr neu drydan; adeiladu ffyrdd, pontydd, rheilffyrdd, llinellau tram a thwneli er mwyn sicrhau bod ein bywydau bob dydd yn mynd rhagddynt yn hwylus. Mae peirianwyr sy'n gweithio yn y diwydiant hwn yn cynnwys:

- Peirianwyr Sifil a Strwythurol
- Peirianwyr Dŵr ac Amgylcheddol
- Peirianwyr Mecanyddol



## Ynni

Canfod ffyrdd newydd o gynhyrchu ynni cynaliadwy ac esblygu dyfeisiau ynni-ffeithlon i leihau'r galw am bŵer – fel goleuadau deallus. Mae peirianwyr sy'n gweithio yn y diwydiant hwn yn cynnwys:

- Peirianwyr Ynni Adnewyddadwy
- Peirianwyr Niwclear
- Peirianwyr Trydanol



## Mae angen peirianwyr yn y sector addysg hefyd

i ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o beirianwyr a thechnolegwyr mewn ysgolion, colegau, prifysgolion a'r gweithle. Mae peirianwyr o bob disgyblaeth yn ymwneud ag addysg.



## Bwyd a Diod

Sicrhau diogelwch ac effeithlonrwydd cynhyrchu bwyd; datblygu a dylunio'r prosesau a ddefnyddir wrth wneud cynhwysion: pecynnu a dosbarthu bwyd a diod. Mae peirianwyr sy'n gweithio yn y diwydiant hwn yn cynnwys:

- Peirianwyr Prosesau
- Prosesau Cemegol
- Peirianwyr Amaethyddol



## Gwyddorau Iechyd a Bywyd

Trawsnewid ac arbed bywydau drwy esblygu cyfarpar a chyffuriau at ddefnydd gweithwyr gofal iechyd proffesiynol – er enghraifft, offerynnau llawfeddygol robotig, coesau a breichiau artiffisial a thriniaethau canser. Mae peirianwyr sy'n gweithio yn y diwydiant hwn yn cynnwys:

- Peirianwyr Biofeddygol
- Peirianwyr Clinigol
- Peirianwyr Cemegol




## Pa fath o beirianeg ddylwn i ei ddewis?

Y ddisgyblaeth beirianeg orau i chi fydd yr un sydd fwyaf diddorol i chi. Gallai fod o gymorth i chi ystyried y canlynol hefyd:

- ⇒ y galw cyfredol am beirianwyr mewn disgyblaethau penodol
- ⇒ ble yn y DU neu yn y byd rydych chi am weithio a'r diwydiannau sy'n amlwg yn yr ardaloedd hynny
- ⇒ cyflog posibl
- ⇒ rhagolygon hirdymor
- ⇒ y sgiliau/cymhwysedd y byddwch yn eu hennill ac ydy'r radd wedi'i hachredu ai peidio

Mwy o wybodaeth am y gwahanol fathau o beirianeg:

[www.tomorrowseengineers.org.uk/ideatocareer](http://www.tomorrowseengineers.org.uk/ideatocareer)



# Pa gymwysterau ydych chi eu hangen i wneud gradd mewn peirianeg?

Mae graddau peirianeg gan amlaf yn gofyn am fathemateg lefel A/lefel T/ Uwch/HL neu gyfwerth a ffiseg (neu gemeg, yn dibynnu ar natur y radd), neu BTEC Lefel 3 mewn peirianeg neu adeiladu a'r amgylchedd adeiledig. Mae pynciau defnyddiol eraill yn cynnwys dylunio a thechnoleg a chyfrifiadura. Gall NVQ, SVQ, Prentisiaethau (Uwch) a chymwysterau cyfwerth eraill gael eu derbyn hefyd.

Bydd y gofynion yn amrywio yn dibynnu ar y radd a'r brifysgol felly edrychwch ar wefan UCAS a phrosbectysau prifysgolion, neu mynnwch sgwrs ag adrannau derbyn prifysgolion.



## Sut galla i dynnu sylw?

I sicrhau bod eich cais yn hoelio sylw, gofawch eich bod chi'n dangos eich angerdd am y pwnc – er enghraifft, gall profiad gwaith, lleoliadau, prosiectau estynedig, cystadlaethau, heriau yn yr ysgol a gwobrau ychwanegu at eich datganiad personol.

## Beth os nad oes gen i'r cymwysterau iawn?

Os nad ydych chi wedi astudio'r pynciau cywir neu gael y graddau oedd eu hangen ar gyfer y radd o'ch dewis, gallech ystyried graddau cysylltiedig neu gyrsiau sylfaen. Mae'r rhain yn para blwyddyn fel rheol ac yn arwain yn uniongyrchol at flwyddyn gyntaf rhaglen radd.

## Peiriannydd Graddedig

"Yn ystod blwyddyn 11, cymerais ran mewn digwyddiad fîm o'r enw 'Cynllun Addysg Beirianeg'. Ces gyfle i weithio gyda rhywun o'r Llynges Frenhinol i ganfod ateb i broblem go iawn – fe wnaethon ni ddatblygu cyflenwad pŵer ar gyfer radios argyfwng ar y raffiaau achub a oedd yn defnyddio'r cyflenwad di-bendraw o heli. Fe wnes i gymryd rhan yn y cwrs 'Headstart' hefyd, a oedd yn para wythnos. Ces aros yn neuaddau preswyl Prifysgol Bryste a chael cyfle i roi cynnig ar wahanol ddisgyblaethau peirianeg a gweld pa faes oedd yn mynd â'm bryd. Roedd y cwrs yn ffordd wych o gael blas ar fywyd yn y brifysgol hefyd!"

**Philippa**, Peiriannydd Cynorthwyol a Rheolwr Prosiect, Amey

MEng (Anrh) Peirianeg Sifil gyda Phrofiad Diwydiannol, Prifysgol Birmingham

Yn gweithio tuag at fod yn Beiriannydd Siartredig (CEng)



# Pa radd yw'r un i mi?

Mae amrywiaeth o raddau ar gael i chi. Mae prifysgolion yn cynnig graddau Sylfaen; Baglor Gwyddoniaeth (BSc) neu Faglor Peirianeg (BEng); BSc neu BEng gydag Anrhydedd (MEng). Mae rhai graddau'n cael eu cynnig gyda blwyddyn mewn diwydiant neu dramor.

Er bod prifysgol yn cynnig graddau mewn peirianeg gyffredinol, mae'r rhan fwyaf mewn disgyblaethau peirianeg penodol fel peirianeg sifil, peirianeg drydanol neu beirianeg fecanyddol, i ddarparu'r wybodaeth arbenigol sy'n berthnasol i'r maes hwnnw.

## ⇒ Gradd sylfaen

- Astudio am ddwy flynedd fel rheol
- Cynnwys dysgu seiliedig ar wautg/Uwch Brentisiaeth
- Cynnig hyfforddiant trylwyr mewn maes arbennig o beirianeg ar gyfer gyrfaeod yn y sector hwnnw.

## ⇒ Graddau achrededig

Mae llawer o raglenni gradd peirianeg yn cael eu hachredu gan y Cyngor Peirianeg - mae hyn yn golygu eu bod yn cwrdd â'r safonau a nodir gan y proffesiwn peirianeg. Mae achrediad yn seiliedig ar ansawdd y rhaglen radd ac a yw'n darparu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen i gofrestru'n broffesiynol fel Peiriannydd Corfforedig (IEng) neu Beiriannydd Siartredig (CEng). Ewch i wefan y Cyngor Peirianeg i chwilio am raglenni gradd achrededig:  
[www.engc.org.uk/courses](http://www.engc.org.uk/courses)



## ⇒ BEng/BSc

- Astudio am dair blynedd fel rheol (pedair yn yr Alban)
- Cynnig hyfforddiant trylwyr mewn peirianeg gyffredinol neu faes arbennig o beirianeg ar gyfer gyrfaeod yn y sector hwnnw

## ⇒ MEng

- Astudio am bedair blynedd fel rheol (pump yn yr Alban)
- Astudio mwy trylwyr na BSc ac yn cynnwys prosiect ymchwil sylweddol fel rheol
- Mwy o gyfleoedd i ddatblygu sgiliau sy'n apelio i'r sector peirianeg
- Darparu sail dda ar gyfer gyrfa ymchwil neu PhD/Doethuriaeth Peirianeg (EngD)

## ⇒ Peirianeg gyda phrofiad mewn diwydiant

- Rhoi cyfle i roi eich dysgu a'ch ymarfer ar waith/gwella'ch sgiliau mewn amgylchedd gwaith go iawn
- Rhoi cyfle i chi weld os mai gyrfa yn y maes hwn yw'r un iawn i chi
- Gallu ennill wrth ddysgu o bosib
- Gallai arwain at swydd ar ôl i chi raddio
- Gallu darparu cyfleoedd i ddatblygu cymhwysedd ar gyfer cofrestrriad proffesiynol fel Technegydd Peirianeg (EngTech), Peiriannydd Corfforedig (IEng) neu Beiriannydd Siartredig (CEng)
- Gwella'ch CV – defnyddiol i bobl sydd newydd raddio

## Peiriannydd Graddedig

"Fe wnes i ddau leoliad haf gyda chyfflogwyr yn y sector ynni adnewyddadwy pan oeddwn i'n y brifysgol. Roedd hi'n wych cael profiad o fod mewn amgylchedd gwaith a gweithio fel rhan o dîm cyn fy swydd gyntaf ar ôl graddio. Roedd y lleoliadau hyn yn werthfawr tu hwnt i'm helpu i benderfynu pa fath o swydd roeddwn i eisiau ei gwneud ar ôl graddio ac fe helpodd i lywio fy llwybr gyrfa. Fe wnaethon nhw hefyd roi gwybodaeth gefndir i mi am nifer o bynciau yn cynnwys gwahanol dechnolegau cynaliadwy a'r farchnad ynni yn y DU, a daeth hyn yn ddefnyddiol yn fy nghyfweliad ar gyfer fy swydd raddedig"

**Sally**, Peiriannydd Mecanyddol Graddedig, Arup

MEng (Anrh) Peirianeg Fecanyddol gyda Chynaliadwyedd, Prifysgol Warwick

Yn gweithio tuag at fod yn Beiriannydd Siartredig (CEng)



## ⇒ Peirianeg gyda blwyddyn dramor

Mae llawer o raddau ar gael gyda blwyddyn dramor yn Ewrop, Gogledd America, Awstralia neu Asia. Mae blynyddoedd cyntaf ac olaf y radd yn dilyn y radd safonol a gynigir gan eich prifysgol. Byddwch yn treulio un o'r blynyddoedd eraill yn y brifysgol dramor, yn astudio ac yn cael eich asesu ar ei maes llafur. Mae myfyrwyr yn aml yn gwerthfawrogi'r profiad o fyw a gweithio mewn amgylchedd gwahanol iawn i gartref yn ogystal â'r cysylltiadau a'r cyfeillion maen nhw'n eu gwneud.

## Peirianeg a...

Mae'r graddau hyn yn golygu treulio tua 50% o'ch amser yn astudio'r maes peirianeg o'ch dewis a'r 50% arall ar y pwnc arall o'ch dewis

## Peirianeg gyda...

Mae'r graddau fel hyn fel arfer yn cynnwys treulio 70% o'ch amser yn astudio maes peirianeg o'ch dewis a'r gweddill yn astudio pwnc arall.

# Sut mae dewis eich prifysgol

## ⇒ Rancio cenedlaethol a rhyngwladol

Caiff prifysgolion eu rancio gan amryw sefydliadau sy'n edrych ar wahanol agweddau fel ansawdd addysg neu brofiad myfyrwyr. Mae llawer o wefannau – fel [www.unistats.com](http://www.unistats.com) – a phapurau newydd – fel y Times Good University Guide – yn cyhoeddi eu tablau'n flynyddol.

## ⇒ Cysylltiadau rhwng cyflogwyr a phrifysgolion

Peirianeg yw un o'r ychydig bynciau gradd sydd â chysylltiad cryf â diwydiant. Os ydych chi'n awyddus i weithio i sefydliad penodol neu o fewn maes penodol o beirianeg, dylech ymchwilio i weld pa brifysgolion (os o gwbl) y mae cwmnïau'n gysylltiedig â nhw.

## ⇒ Strwythur gradd

Efallai y byddwch am ystyried cwestiynau fel:

- Sut mae'r radd yn cael ei haddysgu (seminarau, darlithoedd, gweithdai, sesiynau labordy)
- A oes elfen ymarferol sylweddol i'r radd
- A oes gwaith prosiect yn rhan o'r radd
- Y cyfleoedd i roi gwybodaeth ar waith, drwy ymweliadau diwydiant neu brofiad gwaith
- Ydy'r radd wedi'i hachredu gan y Cyngor Peirianeg



## Cyflogwr

"Mae graddedigion sydd wedi cael rhywfaint o brofiad mewn diwydiant, yn enwedig rheini sydd wedi gweithio yn ein diwydiant, yn disgleirio yn ein proses ddeithol. Maen nhw'n deall sut mae'r busnes yn gweithio ac mae hyn yn golygu eu bod nhw'n gallu creu effaith yn gyflymach gyda'u cyflogwr newydd."

Richard Martin, Prif Beiriannydd,  
Nestlé (Y DU ac Iwerddon)



# Ydy'r brifysgol yn iawn i mi? Dewisiadau amgen i radd lawn amser

Mae nifer cynyddol o gyflogwyr yn cynnig prentisiaethau ansawdd uchel sy'n cynnig dysgu seiliedig ar waith, ymarferol, cymwysterau cydnabyddedig a chyflog hyfforddi wythnosol. Gallwch wneud cais am Uwch Brentisiaeth neu Brentisiaeth Gradd ar ôl eich lefel A/lefel T/Advanced Highers/BTEC neu gyfwerth.

**Mae mwy o wybodaeth am Brentisiaethau ar gael yn:**

[www.gyrfacymru.com](http://www.gyrfacymru.com)  
Os ydych chi'n byw yng Nghymru

[www.getingofar.gov.uk](http://www.getingofar.gov.uk)  
Os ydych chi'n byw yn Lloegr

[www.myworldofwork.co.uk/getting-job/apprenticeships](http://www.myworldofwork.co.uk/getting-job/apprenticeships)  
Os ydych chi'n byw yn yr Alban

[www.nidirect.gov.uk/campaigns/apprenticeships](http://www.nidirect.gov.uk/campaigns/apprenticeships)  
Os ydych chi'n byw yng Ngogledd Iwerddon

Hefyd mae graddau seiliedig ar waith eraill fel 'Pyrth Peirianeg' lle gallwch ennill gradd sy'n cael ei chydabod yn broffesiynol wrth weithio. Mae mwy o wybodaeth am Byrth Peirianeg yn:

[www.engc.org.uk/engineering-gateways](http://www.engc.org.uk/engineering-gateways)



## Lawrlwythwch

Ilyfryn Tomorrow's Engineers  
am lwybrau galwedigaethol a  
phrentisiaeth i faes peirianeg

[www.tomorrowsengineers.org.uk/apprenticeships](http://www.tomorrowsengineers.org.uk/apprenticeships)



# Ar ôl eich gradd

Mae rhai pobl yn dewis parhau â'u hastudiaethau a gwneud cymhwyster Meistr, PhD, neu EngD os yw eu graddau'n ddigon da ac os oes ganddynt y cymorth i allu parhau. Bob blwyddyn, mae prifysgolion, cynghorau ymchwil a sefydliadau eraill fel ymddiriedolaethau elusennol, yn talu am nifer o ysgoloriaethau a bwrsariau myfyrwyr.

Mae prifysgolion fel rheol yn cynnal ffeiri gyrfa lle mae cyflogwyr yn hyrwyddo'u cyfleoedd gwaith a'u cynlluniau i raddedigion.

## Sefydliadau Peirianeg Proffesiynol a Chofrestru Proffesiynol

Wrth i chi astudio, gallwch fod yn aelod myfyrwr o Sefydliad Peirianeg Proffesiynol sy'n ymwneud â'ch maes. Mae llawer o'r sefydliadau hyn yn cynnig aelodaeth am ddim i fyfyrwyr a gallwch wneud cais i ymuno â mwy nag un. Mae'r sefydliadau – ac mae 30 a mwy ohonyn nhw – yn cynorthwyo'r gymuned beirianeg drwy asesu aelodau ar gyfer cofrestru proffesiynol, darparu newyddion diweddaraf y diwydiant ac mae llawer yn cynnig hyfforddiant, cyfleoedd rhwydweithio a llawer mwy. Ar ôl graddio gyda gradd achrededig ac ennill profiad perthnasol drwy weithio ym maes peirianeg, gallech ddod yn aelod graddedig o sefydliad.

Mae'r sefydliadau hyn hefyd yn cynnig y cyfle i gael cofrestriad proffesiynol fel **Technegydd Peirianeg** neu **TGCh (EngTech neu ICTTech)**, **Peiriannydd Corfforedig (IEng)** neu **Beiriannydd Siartredig (CEng)**. Mae cofrestriad proffesiynol yn cael ei gydnabod yn fyd-eang. Mae'r llythrennau sy'n dilyn eich enw yn dangos gallu academaidd, arbenigedd, cymwyseddau sydd wedi'u datblygu drwy brofiad yn y gweithle ac ymroddiad i'r yrfa o'ch dewis.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am gofrestru proffesiynol a Sefydliadau Peirianeg Proffesiynol ar wefan y Cyngor Peirianeg: [www.engc.org.uk](http://www.engc.org.uk)

## Cymorth ariannol

Mae rhai cyflogwyr yn cynnig bwrsariau sy'n rhoi cymorth ariannol gydol eich gradd, yn ogystal ag interniaethau, profiad gwaith, mentora ac, yn aml, swydd ar ôl graddio. Mae gwybodaeth am rai o'r grantiau a'r dyfarniadau sydd ar gael ar adran myfyrwyr gwefan Tomorrow's Engineers: [www.tomorrowsengineers.org.uk](http://www.tomorrowsengineers.org.uk)



## Peiriannydd Graddedig

"Gofalwch eich bod chi'n gallu profi eich bod chi'n cyd-dynnu â phobl ac yn gweithio'n dda mewn fîm; mae fy ngwaith i gyd yn cael ei wneud fel rhan o dîm ac mae'n bwysig bod peirianwyr yn gallu cyfathrebu'n dda â'i gilydd. Mae unrhyw beth o chwaraeon fîm i brosiectau grŵp yn yr ysgol yn gallu dangos hyn. Fel rhan o'm gradd treuliais flwyddyn yn astudio ym Malaysia a oedd yn dangos fy mod i'n gallu gweithio mewn amgylcheddau gwahanol a chyd-dynnu ag eraill."

**Yasmin**, Peiriannydd Gweithrediadau

– E:ON Exploration and Production

MEng (Anrh) Peirianeg Gemegol, Prifysgol Nottingham  
Yn gweithio tuag at fod yn Beiriannydd Siartredig (CEng)





# Tomorrow's Engineers

Cynhyrchwyd 'Peirianeg yn y Brifysgol' gan EngineeringUK, Sefydliad y Peirianwyr Sifil, Y Sefydliad Peirianeg a Thechnoleg a Sefydliad y Peirianwyr Mecanyddol, gyda chynghor gan y Sefydliad Ffiseg a'r Cynghor Peirianeg.

Mae'r sefydliadau hyn yn gweithio ar y cyd (gyda chymorth yr Academi Peirianeg Brenhinol) i ddatblygu deunyddiau am yrfaedd peirianeg ar gyfer rhaglen Tomorrow's Engineers, sydd â'r nod o ysbrydoli pobl ifanc i ystyried gyrfaedd ym maes peirianeg.



I archebu rhagor o gopïau o'r llyfryn hwn neu i gael mwy o wybodaeth, ewch i wefan Tomorrow's Engineers:

[www.tomorrowsengineers.org.uk](http://www.tomorrowsengineers.org.uk)